


GWOBR JOHN MUIR

*Ardaloedd* gwyllt:
DARGANFYDDWCH
ARCHWILIWCH
GWARCHODWCH
RHANNWCH

# Saith ffordd o gael y gorau allan o'ch ardal gwyllt lleol

**Mwynhau manteision iechyd ac addysg wrth gymryd rhan yn her saith diwrnod Gwobr John Muir yn ystod #WalesOutdoorLearningWeek (28 Mawrth—3 Ebrill 2022)**

Mae tystiolaeth yn dangos fod dysgu yn yr amgylchedd naturiol yn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth, gan ein helpu i adnabod yr effaith rydym yn ei gael ar yr amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol.

Dyma rai syniadau i'ch rhoi ar ben ffordd wrth ymgysylltu â dysgu yn yr awyr agored. Rydym wedi cynllunio saith diwrnod i ddangos sut y gall dysgu yn yr awyr agored fodloni ystod o feysydd o fewn y cwricwlwm. Gellir teilwra gweithgareddau a'u gwneud yn annibynnol, neu mewn grwpiau bach.

Wrth gwrs, efallai y bydd gennych syniadau eich hun, y peth pwysicaf yw eich bod yn mynd allan ac yn dysgu.

#johnmuiraward
#walesoutdoorlearningweek

## Dydd Llun Celf a chrefft
### Creu daliwr glaw

Creu dyfais sy'n gallu dal y glaw wrth iddo ddisgyn defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu fel potel neu jar. Meddyliwch am le addas yn eich ardal leol i'w osod, rhywle na fydd yn cael ei ddifrodi ac yn gallu casglu digon o law!

- Sut ydych chi'n mynd i fesur faint o glaw mae'n ei ddal?
- Faint o law fyddech chi'n disgwyl ei gasglu yr adeg yma o'r flwyddyn? (Efallai y medrwch wneud ychydig o ymchwil i gweld beth sy'n normal.)
- Sut gallwn ni ddefnyddio dŵr glaw i leihau ein defnydd dyddiol o ddŵr gartref?

## Dydd Mawrth Llythrennedd
### Ysgrifennwch gerdd natur

Ewch am dro yn eich ardal leol a meddyliwch am eich holl synhwyrau.

- Beth allwch chi ei glywed, ei arogli, ei weld?
- Allwch chi ysgrifennu cerdd i greu darlun or hyn sydd gennych chi yn eich amgylchedd?

## Dydd Mercher Rhifedd
### Gwnewch ddeial haul

Crëwch ddeial haul i allu dweud beth yw'r amser ar sail cysgod yr haul.

- Gwnewch arolwg o'ch ardal / ysgol leol, ble mae'r lle gorau i roi eich deial haul i allu cael darlleniad cywir?
- Sut mae'r adeg o'r flwyddyn yn effeithio ar ddefnyddioldeb deial haul?



JOHN MUIR TRUST

## Dydd Iau Daearyddiaeth
### Mapiwch eich amgylchedd

Ar ôl cerdded o gwmpas ac ymchwilio'ch ardal leol, darluniwch fap manwl.

- Allwch chi ddefnyddio symbolau map arferol i amlygu'r prif nodweddion?
- Cofiwch gynnwys allwedd er mwyn i'r darllenydd allu dilyn y map.

## Dydd Gwener byw'n iach
### Casglwch sbwriel yn lleol

Treuliwch ychydig o amser yn tacluso eich ardal leol, casglwch sbwriel neu glirio chwyn.

- Tynnwch luniau cyn ac ar ôl a gwnewch rai nodiadau ar yr hyn a wnaethoch i wella'r ardal.
- Beth allwch chi ei wneud i helpu i sicrhau bod llai o sbwriel ar ôl yn yr ardaloedd hyn?



## Dydd Sadwrn Rhifedd
### Helfa drysor

Ewch ar antur a dod o hyd i'r ddeilen fwyaf y gallwch chi!

- Allwch chi ei ddogfennu? Tynnwch lun a mesurwch ef â phren mesur!
- Allwch chi nodi pa fath o ddeilen ydoedd ac pha mor gyffredin ydyw yn eich ardal?




## Dydd Sul Celf a Chrefft
### Uwchgylchu ar gyfer natur

Gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu, gallwch greu gwesty gwenyn neu beiriant bwydo adar i helpu bywyd gwyllt yn eich gardd / ardal leol.

- Monitro'r defnydd dros y misoedd nesaf, cofnodi pa fath o fywyd gwyllt sy'n ei ddefnyddio a cymryd lluniau.

## Cydweithio ar gyfer dysgu awyr agored a'r amgylchedd naturiol

Cyngor Cymru ar Gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored
Wales Council for Outdoor Learning

GWOBR JOHN MUIR — *Ardaloedd gwyllt:* DARGANFYDDWCH ARCHWILIWCH GWARCHODWCH RHANNWCH

Mae Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored yn dod a holl rhanddeiliaid sy'n ymwneud â Dysgu yn yr Awyr Agored yng Nghymru at ei gilydd. Mae'n cydnabod bod gan bob rhanddeiliad rôl werthfawr i'w chwarae wrth gyfrannu at un llais clir ar gyfer Awyr Agored Dysgu yng Nghymru, wedi'i adeiladu ar ethos/sylfaen bodolaeth cydweithredol, niwtral, rhagweithiol a strategol.

Cynllun gwobrau amgylcheddol Ymddiriedolaeth John Muir – Gwobr John Muir - yn annog pobl o bob cefndir i gysylltu gyda, mwynhau a gofalu am ardaloedd gwyllt. Mae'n gynhwysol, yn hygyrch ac anghystadleuol, ond dylai herio pob cyfranogwr. Mae'r Wobr yn annog ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb am y amgylchedd naturiol trwy gynllun strwythuredig ond y gellir ei addasu, mewn ysbryd o hwyl, antur ac archwilio.

**Darganfod mwy**
I gael rhagor o wybodaeth am sut i barhau â'r daith i ddarganfod, archwilio, cadw a rhannu eich profiadau awyr agored, ewch i **johnmuiraward.org** neu e-bostiwch **info@johnmuiraward.org** i gael mynediad i hyfforddiant ar-lein rhad ac am ddim gyda Gwobr John Muir.

Rhannwch yr hyn rydych chi wedi'i wneud yn ystod wythnos dysgu awyr agored ar gyfryngau cymdeithasol #johnmuiraward neu #walesoutdoorlearningweek

Lkuniau gan Tom Morgan Jones - cliciwch yma i weld y poster yn llawn

The John Muir Trust is a Scottish charitable company limited by guarantee. (Charity No. SC002061 Company No. SC081620).
Registered office: Tower House, Station Road, Pitlochry, PH16 5AN

JOHN MUIR TRUST